Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Cynllun Trawsnewid Diwylliant

## Ein cynllun newydd i wneud y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn lle gwell i weithio

**Mawrth 2025**



# Gwybodaeth am y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

**Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth** ydyn ni. Yr enw byr amdanom ni ydy'r **NMC**.



Ein gwaith ni ydy gwneud yn siŵr fod pob **nyrs** a **bydwraig** yn y Deyrnas Unedig a **chymdeithion nyrsio** yn Lloegr yn ddiogel i weithio.



Mae **nyrsys** yn helpu pobl sy'n sâl, wedi'u hanafu neu sydd angen gofal.



Mae **bydwragedd** yn helpu pobl i roi genedigaeth.



Mae **cymdeithion nyrsio** yn staff iechyd sy'n gweithio gyda nyrsys yn Lloegr.

# Pam mae angen cynllun newydd



Mae rhai pobl wedi dweud nad ydy’r NMC yn lle da i weithio.  Mae pethau fel bwlio a **hiliaeth** wedi digwydd.




**Hiliaeth** ydy cael eich trin yn wael oherwydd pethau fel:

- Lliw eich croen.
- Siarad iaith wahanol.



Felly mae dod i’r gwaith yn rhywbeth ofnadwy i rai pobl.



RISE ASSOCIATES

Fe wnaethom ni ofyn i sefydliad o’r enw Rise Associates wneud **adolygiad** am weithio yn yr NMC.

Ystyr **adolygiad** ydy edrych ar rywbeth i gael gwybod mwy amdano.



Fe wnaeth y tîm siarad gyda llawer o staff am weithio yn yr NMC.
Fe wnaethon nhw ofyn i'r staff beth oedd eu barn a sut roedden nhw'n teimlo.



Yn ôl yr adolygiad:

- Mae llawer o staff yn anhapus iawn.



- Mae'r ffordd rydyn ni'n gwneud pethau yn yr NMC yn effeithio ar sut mae pobl yn teimlo.

  Pethau fel gofyn i bobl ddelio â gormod o waith ar yr un pryd.



Mae'n gwneud i bobl deimlo dan straen mawr.



- Dydyn ni ddim wedi gwneud digon yn y gorffennol i ddelio â phroblemau.  Pethau fel cefnogi staff sydd wedi profi hiliaeth neu fwlio.




Mae gennym ni adroddiad hawdd ei ddeall sy'n dweud mwy wrthych chi am yr adolygiad.
Mae adroddiad ar gael ar ein gwefan:

**www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/independent-reviews/2024/adolygiad-diwylliant-annibynnol-hawdd-ei-ddeall-yr-nmc-gorffennaf-2024.pdf**

# Gwybodaeth am ein cynllun



Ar ôl yr adolygiad, fe wnaethom ni siarad gyda llawer mwy o staff.



Fe wnaethom ni glywed gan fwy na 770 o bobl.




Fe wnaethom ni wrando ar y pethau roedd pawb yn ei ddweud.
Fe wnaethom ni ddefnyddio hyn i ysgrifennu ein cynllun newydd.




Mae'n dweud sut rydyn ni'n mynd i newid pethau dros y 3 blynedd nesaf fel bod ein staff yn:



- Teimlo'n hapus ac yn mwynhau gweithio i ni.



- Teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw a bod eu lleisiau’n cael eu clywed.



- Gweithio’n dda gyda’i gilydd a thrin ei gilydd yn garedig a pharchus.



- Teimlo eu bod yn perthyn ac yn cael eu cynnwys.

## 6 o bethau mawr y byddwn ni'n gweithio arnyn nhw



I newid sut rydyn ni'n gwneud pethau, byddwn ni'n gwneud hyn:

1. Cael arweinwyr sy'n dda iawn am gefnogi eu timau.



2. Meddwl am ein **gwerthoedd** pan fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau.

   Ein **gwerthoedd** ydy'r pethau rydyn ni'n credu ynddyn nhw a sut rydyn ni'n ymddwyn.





3. Cynnwys pobl a thrin pawb yn deg ym mhopeth a wnawn.



4. Gwneud yn siŵr fod pobl yn teimlo'n ddiogel i siarad am bethau sy'n eu poeni.



5. Gwneud yn siŵr fod staff yn teimlo’n hapusach yn y gwaith a’u bod yn falch o weithio i’r NMC.




6. Gwneud yn siŵr fod ein rheolau ar gyfer gwneud pethau yn rheolau teg ac yn gweithio’n dda i bawb.

# Sut byddwn ni'n gwireddu ein cynllun



Byddwn ni'n gweithio gyda 5 hyfforddwr arbenigol.  Dyma bobl fydd yn dysgu ein rheolwyr a'n harweinwyr am ffyrdd da o weithio.



Byddwn ni'n sefydlu grŵp newydd yn yr NMC.  Bydd y grŵp yn arwain y gwaith i newid y ffordd rydyn ni'n gwneud pethau.




Bydd y grŵp yn cynnwys cymysgedd dda o bobl o bob rhan o'r NMC. Byddan nhw'n dechrau cyfarfod ym mis Ebrill 2025.




Byddwn ni'n ysgrifennu cynlluniau newydd am drin pobl yn deg a chynnwys pobl.



A bydd gennym ni ffyrdd newydd i staff roi gwybod i reolwyr am unrhyw broblemau.

# Beth rydyn ni wedi'i wneud



Rydyn ni eisoes wedi dechrau newid pethau.

Rydyn ni wedi:



- Creu swydd newydd ar gyfer **helpu pobl roi eu barn**

  Dyma rywun sy'n helpu staff i godi llais os oes problem

  a



- Creu swyddi newydd ar gyfer **arbenigwyr** ar drin pobl yn deg a chynnwys pobl.

  **Arbenigwr** ydy rhywun sy'n gwybod llawer am rywbeth.



Ond rydyn ni’n gwybod bod mwy o waith i’w wneud.

Byddwn ni'n parhau i weithio ar ein cynllun a’i wirio’n aml.



Byddwn ni'n gofyn i bobl beth sy’n gweithio’n dda yn eu barn nhw, neu beth sydd angen ei newid.




Byddwn ni'n parhau i weithio i wneud newidiadau a gwneud yr NMC yn lle gwell i weithio.

# Gwybodaeth am yr adroddiad hawdd ei ddeall

Easy Read UK
Paper, Online and Digital

Mae Easy Read UK wedi ein helpu i ysgrifennu'r adroddiad hawdd ei ddeall.

**www.easyreaduk.co.uk**

working together
K.I.N
Kirklees Involvement Network

Roedd Kirklees Involvement Network wedi gweithio gyda Easy Read UK a gwirio'r adroddiad hwn.



Mae'r lluniau yn yr adroddiad hwn wedi dod gan Photosymbols, Ing Image a'r NMC.

nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

**Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).**

**23 Portland Place, Llundain W1B 1PZ**
**Ff 020 7637 7181**
**www.nmc.org.uk**